



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales



Iechyd Rhyngwladol
International Health

Adroddiad Sganio a Dysgu Gorwelion Rhyngwladol

Ysgogwyr cyllidol i fynd i'r afael â gordewdra

Adroddiad 51, Ionawr 2025

Canolfan Gydweithredol Sefydliad
Iechyd y Byd ar Fuddsoddi
ar gyfer Iechyd a Llesiant



World Health Organization
Collaborating Centre on Investment
for Health and Well-being

Trosolwg

Dechreuwyd yr adroddiadau Sganio a Dysgu Gorwelion Rhyngwladol fel rhan o'r ymateb iechyd y cyhoedd i COVID-19, i gefnogi ymateb deinamig a mesurau adfer a chynllunio yng Nghymru. Yng ngwanwyn 2022, ehangwyd cwmpas yr adroddiadau i gwmpasu pynciau iechyd y cyhoedd â blaenoriaeth a'r rhai oedd yn dod i'r amlwg, gan gynnwys ym meysydd gwella a hybu iechyd, diogelu iechyd, a gofal iechyd. Mae Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ogystal â rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol ehangach y GIG a Chymru yn gofyn am bynciau'r adroddiadau. Mae pynciau a chanfyddiadau'r adroddiadau yn cyd-fynd â'r penderfyniadau a'r gwaith parhaus yn Llywodraeth Cymru, y GIG, Iechyd Cyhoeddus Cymru ac Ymchwiliad Cyhoeddus COVID-19, ac yn helpu i'w llywio. Maent hefyd yn cael eu dosbarthu i rwydwaith ehangach o weithwyr iechyd (y cyhoedd) proffesiynol a phartneriaid yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Cynhyrchir yr adroddiadau yn chwarterol.

Mae'r gwaith hwn yn rhan o ddull systematig ehangach Iechyd Cyhoeddus Cymru o gasglu gwybodaeth a throsi tystiolaeth yn bolisi ac ymarfer, gan gefnogi camau gweithredu cydlynol, cynhwysol sy'n seiliedig ar dystiolaeth, sy'n datblygu'r broses o weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a chynllun strategol Cymru iachach tuag at Gymru iachach, fwy cyfartal, cydnerth, ffyniannus sy'n gyfrifol yn fyd-eang.

Ymwadiad: Mae'r adroddiadau'n rhoi crynodeb lefel uchel o'r hyn a ddysgwyd yn rhyngwladol yn unig yn seiliedig ar brofiadau bywyd go iawn o wledydd dethol a sefydliadau byd-eang allweddol, ac o amrywiaeth o lenyddiaeth wyddonol a llwyd, gan gynnwys ffynonellau gwybodaeth i ganiatáu archwiliad pellach. Nid yw'r adroddiadau'n gynhwysfawr ac nid ydynt wedi'u hanelu at ddarparu adolygiad manwl o dystiolaeth, dadansoddiad neu sicrwydd ansawdd. Eu bwriad yw cynnig cipolwg byr ar dystiolaeth, polisi ac arfer cyfredol, a chyfleu enghreifftiau o wledydd perthnasol ac ymchwil, canllawiau, offer ac egwyddorion cyrff rhyngwladol allweddol (o fri).

Mewn ffocws:

Ysgogwyr cyllidol i fynd i'r afael â gordewdra

Cynnwys

Geirfa.....	3
Cipolwg: crynodeb o ddysgu rhyngwladol	4
Ysgogwyr cyllidol i fynd i'r afael â gordewdra.....	7
Gweithredu seiliedig ar ddatrysiadau.....	9
Golwg ar Wlad	19
Hwngari	19
Mecsico	21
UDA	22
Atodiad: Cyd-destun Cymru.....	26
Cyfeiriadau.....	29

Treth ecséis ad-quantum: Treth ecséis a gymhwysir fel swm penodol £ cyfaint yr uned.

Treth ecséis ad valorem: Treth ecséis a gymhwysir fel canran o werth cynnyrch.

Treth ecséis: Treth yn targedu cynhyrchion penodol i gynyddu eu pris o gymharu â nwyddau defnyddwyr eraill.

Polisi cyllidol: Y defnydd o wariant a threthiant y llywodraeth i ddylanwadu ar yr economi, neu yn y cyd-destun hwn i hybu diet iach.

Treth anuniongyrchol/treth cymeriant: Trethi a osodir ar nwyddau neu wasanaethau sy'n achosi defnyddwyr i dalu prisiau uwch.

Treth gwerthu: Yn cael ei dalu gan y defnyddiwr ar adeg prynu'r nwyddau a'r gwasanaethau trethadwy, fel arfer yn cael ei gymhwyso ar gyfradd unffurf ar yr holl nwyddau/gwasanaethau.

Treth ddewisol: Treth sy'n berthnasol i gynnyrch penodol.

Treth ecséis penodol: Treth ecséis a gymhwysir fel swm ariannol penodol fesul cyfaint uned neu swm, y cyfeirir ati hefyd fel trethi cyfeintiol, ad quantum neu fesul uned.

Cymorthdaliadau: Yn arwain at gymhellion pris i ddefnyddwyr gan gynnwys trwy ad-daliadau, gostyngiadau, talebau ariannol, neu gwponau.

Sylfaen treth: Gwerth, maint, neu gyfaint cynnyrch trethadwy y cymhwysir cyfradd dreth arno.

Strwythur treth: Yn cyfeirio at y ffordd y mae treth wedi'i chynllunio. Gellir cymhwyso trethi ecséis ar gyfradd dreth unffurf (yr un peth) neu ar gyfradd wahaniaethol (haenog). Gallant hefyd fod yn benodol eu natur, ad valorem neu gymysgedd o'r ddau.

Treth haenog: Strwythur treth lle mae cyfraddau'n amrywio o fewn categori cynnyrch treth yn seiliedig ar nodweddion y cynnyrch.

Treth Ar Werth (TAW): Treth aml-gam a godir ar werth a gynhyrchir ar bob cam cyflenwi, sydd fel arfer yn gyfradd unffurf.

Cipolwg: crynodeb o ddysgu rhyngwladol

“Argymhellwyd polisiau cyllidol sy'n dylanwadu ar brisiau cymharol bwydydd a diodydd dro ar ôl tro fel opsiwn polisi i hyrwyddo diet iach.”
WHO, 2022¹

Cwmpas a ffocws yr adroddiad hwn

- ✚ Mae ffocws yr adroddiad hwn ar **bolisiau cyllidol** sy'n hybu diet iach, gan gynnwys y rhai sy'n gostwng prisiau (**cymorthdaliadau**) neu'n cynyddu prisiau (**trethi**) ar gyfer grwpiau bwyd penodol.
- ✚ Mae cynllunio polisiau cyllidol yn golygu ystyried amrywiol elfennau polisi gan gynnwys y mecanwaith treth/cymhorthdal, cynhyrchion sydd wedi'u cynnwys yn y dreth/cymhorthdal, y gyfradd, y defnydd o'r referniw ac effeithiau tegwch.
- ✚ Mae'r **adroddiad hwn yn archwilio ysgogwyr cyllidol trwy fecanwaith treth/cymhorthdal**, ac yna ceir crynodeb o ystyriaethau dylunio polisi eraill.
- ✚ Nid yw polisiau rheoleiddio gan gynnwys rheolaethau marchnata a chyfyngu ar argaeledd/y defnydd o gynhyrchion nad ydynt yn iach o fewn cwmpas yr adroddiad hwn.

Ystyriaethau allweddol

- ✚ Mae polisiau cyllidol wedi'u cymhwyso'n rhyngwladol a gallant wneud bwyd/diod llai iach yn ddrutach, yn ogystal ag eitemau iachach yn fwy fforddiadwy.
- ✚ Mae mesurau cyllidol **yn gofyn am ymrwymiad, adnoddau ac addasu** i'w gweithredu'n llwyddiannus.
- ✚ Nid yw mesurau cyllidol yn **ateb sengl** ac er y gallant gael effaith gadarnhaol ar ffactorau sy'n gysylltiedig â bod dros bwysau a gordewdra (hy prynu a chymeriant), mae angen mesurau ehangach hefyd ar gyfer bod dros bwysau a gordewdra.
- ✚ Mae angen gwneud rhagor o waith mewn perthynas â **nodi mesurau cyllidol Cymreig penodol** yn erbyn mesurau Deyrnas Unedig (DU) gyfan, yng nghyd-destun y gwledydd datganoledig.

Cefndir

- ✚ Mae gordewdra yn gyflwr **cymhleth cronig aml-ffactor** a all amharu ar iechyd, a achosir yn bennaf gan anghydbwysedd rhwng calorïau a fwyteir a chalorïau a ddefnyddir.
- ✚ Mae gordewdra yn **bryder iechyd y cyhoedd mawr byd-eang** gyda nifer yr achosion yn cynyddu mewn oedolion a phlant, gan achosi effeithiau iechyd sylweddol a chostau gofal iechyd cysylltiedig.
- ✚ Mae gordewdra **yn lleihau disgwyliad oes ac ansawdd bywyd**, gan arwain at amrywiaeth o glefydau anhrosglwyddadwy (NCDs) gan gynnwys clefydau cardiofasgwlaidd, diabetes math 2, canserau, anhwylderau cyhyrsgerbydol, a chlefydau anadlol cronig. Mae unigolion sy'n byw gyda gordewdra hefyd yn fwy tebygol o ddioddef o **broblemau iechyd meddwl**.
- ✚ Mae gordewdra yn **cynyddu anghydraddoldebau** rhwng gwledydd ac o fewn poblogaethau, gyda menywod a dynion ag incwm is yn fwy tebygol o fod yn ordew.

Gweithredu Seiliedig ar Ddatrysiadau

- ✚ Mae dealltwriaeth o'r ffactorau cymhleth sy'n cyfrannu at ordewdra wedi cynyddu dros y degawdau diwethaf, ac mae ymatebion cyfredol yn cydnabod rôl dylanwadau amgylcheddol (yr '**amgylchedd gordewdra**') sy'n gyrru'r epidemig gordewdra:
 - Mae amgylcheddau cymdeithasol-ddiwylliannol, ffisegol ac economaidd nad ydynt yn iach yn cyfyngu ar argaeledd bwyd iach ac yn rhwystro gallu unigolion i ymgymryd â digon o weithgarwch corfforol.
 - Mae atal a rheoli gordewdra yn gofyn am **bolisiau a chamau gweithredu aml-sector** gan gynnwys camau strwythurol, cyllidol a rheoleiddiol sy'n sicrhau bod

opsiynau bwyd a diod iachach a gweithgarwch corfforol ar gael, yn hygyrch ac yn ddymunol.

Ysgogwyr cyllidol

- ✚ Mae polisiâu cyllidol sy'n dylanwadu ar bris cymharol bwydydd a diodydd wedi'u hargymell dro ar ôl tro ar lefel fyd-eang fel opsiwn polisi i hybu diet iach.
- ✚ Er bod polisiâu cyllidol yn parhau i gael eu tanddefnyddio, bu **momentwm sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf**. O 2024, mae 115 o wledydd wedi gweithredu trethi ar ddiodydd wedi'u melysu â siwgr (SSB) ac mae 41 o wledydd wedi gweithredu trethi bwyd ar lefel genedlaethol, gyda llai o wledydd hyd yn hyn yn gweithredu polisiâu i sybsideiddio bwydydd/diodydd iachach.
- ✚ Yn 2024 cyhoeddodd Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) ganllawiau i roi argymhellion yn seiliedig ar dystiolaeth i Aelod-wladwriaethau ar gyfer gweithredu polisiâu cyllidol, gan wneud **argymhelliad cryf i drethu SSBs ac argymhelliad amodol i drethu bwydydd a defnyddio cymorthdaliadau bwyd** (yn seiliedig ar y dystiolaeth gyfyngedig gyfredol).
- ✚ Mae yna ar hyn o bryd **dystiolaeth gyfyngedig o oblygiadau iechyd** y mesurau a weithredwyd, er bod astudiaethau modelu yn awgrymu effeithiau sylweddol trethi o ran lleihau gordewdra a chlefydau cysylltiedig.

1. Trethi

- ✚ Mae'r rhan fwyaf o drethi a ddefnyddir i wella diet yn **drethi anuniongyrchol**¹, gan gynnwys **trethi dethol (trethi ecséis)**² a **threthi eang eu sail (trethi treth ar werth (TAW)**³ a **threthi gwerthu**⁴) (gweler Ffigur 2, tudalen 7).
- ✚ Mae consensws eang mai trethi ecséis dethol yw'r arf cyllidol o ddewis ar gyfer bwyd a SSBs oherwydd eu bod yn fwyaf tebygol o arwain at brisiau uwch ar gyfer cynhyrchion penodol a thrwy hynny leihau cymeriant.
- ✚ **Mae trethi ecséis ad-quantum**⁵ yn debygol o fod yn fwy effeithiol na threthi ecséis **ad valorem**⁶:
 - Maent yn cynyddu pris yr holl gynhyrchion a drethir yr un faint, gan leihau'r cymhelliant i ddefnyddwyr newid i opsiynau rhatach.
 - Maent yn darparu refeniw mwy sefydlog, nid ydynt yn destun newid prisiau gan y diwydiant ac efallai'n haws eu gweinyddu.
- ✚ Mae tystiolaeth ryngwladol yn dangos bod trethi SSB yn gysylltiedig â phrisiau uwch a gwerthiant is o ddiodydd wedi'u trethu, heb unrhyw dystiolaeth o newid i ddiodydd heb eu trethu.
- ✚ Er bod y dystiolaeth i gefnogi trethi bwyd yn llai cyson nag ar gyfer SSBs, mae'n awgrymu bod trethi eang eu sail yn tueddu i gael mwy o effaith na threthi cul oherwydd eu bod yn atal amnewidiadau gyda bwydydd nad ydynt yn iach nad yw'r dreth yn eu cynnwys.
- ✚ Mae rhai **gwledydd wedi diddymu trethi** yn dilyn heriau o ran eu gweithredu, gan gynnwys Denmarc a'r Ffindir. Mae'r heriau hyn yn amlygu pwysigrwydd cynlluniau treth sy'n hawdd i'w gweithredu, wedi'u cefnogi'n dda ac sydd â nodau iechyd y cyhoedd clir.

2. Cymorthdaliadau

- ✚ Hyd yn hyn, ychydig o wledydd sydd wedi gweithredu polisiâu i gynnig cymhorthdal ar fwydydd a diodydd iachach neu ddileu trethi fel ffordd o annog patrymau diet iachach.
- ✚ Gyda chymorthdaliadau'n cael eu defnyddio llai ar raddfa eang, mae'r **syfaen dystiolaeth ar eu heffeithiolrwydd yn llai**, er yn addawol.

¹ Trethi a osodir ar nwyddau neu wasanaethau sy'n achosi defnyddwyr i dalu prisiau uwch.

² Treth yn targedu cynhyrchion penodol i gynyddu eu pris o gymharu â nwyddau defnyddwyr eraill.

³ Treth aml-gam a godir ar werth a gynhyrchir ar bob cam cyflenwi, fel arfer cyfradd unffurf.

⁴ Yn cael ei dalu gan y defnyddiwr ar adeg prynu'r nwyddau a'r gwasanaethau trethadwy, fel arfer yn cael ei gymhwyso ar gyfradd unffurf ar yr holl nwyddau/gwasanaethau.

⁵ Wedi'i gymhwyso fel swm penodol £ cyfaint yr uned.

⁶ Wedi'i gymhwyso fel % o werth y cynnyrch.

- ✚ Mae'r defnydd o gymhellion cyllidol cadarnhaol, megis gwahaniaethu ar gyfraddau TAW, hefyd yn cael ei ystyried yn gynyddol fel opsiwn ar gyfer cymell diet iach.

3. Trethi a chymorthdaliadau

- ✚ Mae tystiolaeth gynyddol mai **cyfuno trethi gyda chymorthdaliadau** ar gyfer opsiynau iachach yw'r dull mwyaf effeithiol yn ôl pob tebyg.

Nodweddion Gwlad

Hwngari

- ✚ Cyflwynwyd Treth Cynnyrch Iechyd y Cyhoedd ecséis ad quantum yn 2011 sy'n cael ei chymhwyso ar fwydydd wedi'u pecynnu ymlaen llaw a diodydd sy'n cynnwys llawer o halen, siwgr a chaffein.
- ✚ Arweiniodd y dreth at ostyngiad sylweddol yn y pryniant o gynhyrchion trethadwy rhwng 2010 a 2018, er mae tystiolaeth bod patrymau cymeriant wedi dechrau dychwelyd dros amser.
- ✚ Mae rhan o'i lwyddiant wedi'i briodoli i ymdrechion y llywodraeth i gynyddu hygyrchedd dewisiadau bwyd iach ochr yn ochr â'r dreth a'r defnydd o'i referniw i ariannu iechyd y cyhoedd.

Mecsico

- ✚ Cyflwynwyd pecyn diwygio cyllidol yn 2013 a oedd yn cynnwys treth tollau ecséis ad valorem o 10% ar SSBs a threth o 8% ar fwydydd dwys o ran ynni nad ydynt yn hanfodol.
- ✚ Arweiniodd y dreth at ostyngiad sylweddol yng ngwerthiant bwydydd trethadwy mewn archfarchnadoedd a manwerthwyr eraill ac anogwyd cwmnïau bwyd i ailfformiwleiddio eu cynhyrchion.
- ✚ Fe wnaeth fframio'r dreth fel cynhyrchu referniw a gweithredu ymgyrch yn y cyfryngau i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd helpu i oresgyn gwrthwynebiad cynnar.

Yr Unol Daleithiau

- ✚ Nid yw trethi cenedlaethol wedi ennill grym gwleidyddol sylweddol eto, ond mae trethi ecséis a gwerthu ar lefel is-genedlaethol yn cael eu defnyddio ar gyfer SSBs a bwydydd cyflym/bwydydd cyfleus.
- ✚ Mae trethi is-genedlaethol wedi gweld y galw am fwydydd a diodydd wedi'u trethu a nifer y pryniannau yn lleihau, er nad oes ganddyn nhw effeithiau eang y trethi cenedlaethol ehangach eu cwmpas.
- ✚ Mae Rhaglen Cymorth Maeth Atodol (SNAP) ffederal yn darparu addysg bwyd a maeth atodol i Americanwyr incwm isel. Yn ogystal â lleihau ansicrwydd bwyd, mae rhywfaint o dystiolaeth yn awgrymu bod SNAP wedi cynyddu gwerthiant ffrwythau a llysiau.


Darperir trosolwg o'r cyd-destun polisi yng Nghymru i gyfeirio ato yn yr Atodiad.

Ysgogwyr cyllidol i fynd i'r afael â gordewdra

Cwmpas a ffocws yr adroddiad hwn

- Mae ffocws yr adroddiad hwn ar bolisïau cyllidol sy'n hybu diet iach, gan gynnwys y rhai sy'n gostwng prisiau (cymorthdaliadau) neu'n cynyddu prisiau (trethi) ar gyfer bwydydd a diodydd penodol (ac eithrio alcohol) (gweler Ffigur 1).
- Mae'r rhan fwyaf o drethiant i wella iechyd yn cael ei gymhwyso i nwyddau a gwasanaethau (trethi anuniongyrchol) yn hytrach nag ar unigolion, busnesau, neu aelwydydd penodol (trethi uniongyrchol) felly mae trethi yn yr adroddiad hwn yn cyfeirio at drethi anuniongyrchol sy'n cynnwys:
 - Trethi dethol (trethi ecséis ad valorem ac ad quantum)
 - Trethi eang eu sail (TAW a threth gwerthu)² (gweler Ffigur 2).
- Mae cymorthdaliadau yn yr adroddiad hwn yn cyfeirio at y rhai sy'n arwain at gymhellion pris i ddefnyddwyr, gan gynnwys drwy ad-daliadau, gostyngiadau, talebau ariannol neu gwponau¹. Nid yw'n cynnwys cymorthdaliadau i weithgynhyrchwyr neu ffermwyr¹.
- Nid yw polisïau rheoleiddio gan gynnwys rheolaethau marchnata a chyfyngu ar argaeledd/y defnydd o gynhyrchion nad ydynt yn iach neu sy'n niweidio iechyd o fewn cwmpas yr adroddiad hwn.³

Ffigur 1: Diagram llif o deipolegau ysgogwyr cyllidol



Ffigur 2: Diffiniadau trethiant

Trethi anuniongyrchol/cymeriant: trethi a osodir ar nwyddau neu wasanaethau sy'n achosi defnyddwyr i dalu prisiau uwch a gallant fod yn anghymhellion pris i ddefnyddwyr. Mae yna wahanol fathau o drethi anuniongyrchol:

- **Trethi dethol** (treth sy'n berthnasol i gynnyrch penodol):
 - **Trethi ecséis** (trethi defnydd anuniongyrchol yn targedu cynhyrchion penodol i gynyddu eu pris o gymharu â nwyddau defnyddwyr eraill):
 - Gallant fod ar ffurf trethi ecséis **ad valorem** (cymhwysir fel % o werth y cynnyrch) neu drethi ecséis **ad quantum** (cymhwysir fel swm penodol £ fesul cyfaint uned - a elwir hefyd yn dreth benodol / cyfeintiol / fesul uned)
 - Gellir cymhwyso'r mathau hyn o dreth ecséis ar gyfradd **unffurf** neu wahaniaethol (**haenog**), ac ar eu pen eu hunain neu mewn cyfuniad (system gymysg).
- **Trethi eang eu sail:**
 - **TAW:** treth aml-gam a godir ar werth a gynhyrchir ar bob cam cyflenwi, fel arfer cyfradd unffurf.
 - **Trethi gwerthu:** telir gan y defnyddiwr ar adeg prynu'r nwyddau a'r gwasanaethau trethadwy, fel arfer yn cael ei gymhwyso ar gyfradd unffurf ar yr holl nwyddau/gwasanaethau.^{1,2,3}

Cefndir

- Mae gordewdra yn gyflwr cymhleth cronig aml-ffactor a ddiffinnir gan ddyddodion braster gormodol a all amharu ar iechyd⁴, a achosir yn sylfaenol gan anghydbwysedd o galoriau a fwyteir (yn enwedig o fwydydd sy'n uchel mewn braster a siwgr) a chaloriau a ddefnyddir⁵.
- Mae gordewdra yn bryder iechyd y cyhoedd mawr byd-eang, gyda nifer yr achosion yn cynyddu gan achosi effeithiau iechyd sylweddol a chostau gofal iechyd cysylltiedig⁶.
- Amcangyfrifwyd bod dros biliwn o bobl yn byw gyda gordewdra yn fyd-eang yn 2022, gan gynnwys 160 miliwn o blant a phobl ifanc 5-19 oed⁴.
- Rhwng 1990 a 2022, cynyddodd cyfradd gordewdra ymhlith plant a phobl ifanc bedair gwaith (o 2% i 8%) yn fyd-eang, a gwnaeth gordewdra oedolion fwy na dyblu (o 7% i 16%)⁵.
- Mae gan y DU un o'r cyfraddau gordewdra uchaf ymhlith gwledydd incwm uchel⁷:

Ffigur 3: Cyfraddau gorbwysedd a gordewdra hunan-gofnodedig ymhlith oedolion, yn ôl rhyw, 2021 (OECD⁸)

(Nid yw'r ffigur ar gael yn Gymraeg)



Effeithiau ar iechyd a llesiant

Oedolion

- Mae gordewdra yn achos marwolaethau a morbidrwydd oherwydd ei fod yn ffactor risg mawr mewn llawer o glefydau anhrosglwyddadwy (NCDs) gan gynnwys clefyd cardiofasgwlaidd (clefyd y galon a strôc yn bennaf), diabetes math 2, canserau (endometriaidd, y fron a'r coluddyn yn bennaf), anhwylderau cyhyrsgerbydol ac afiechydon anadlol cronig^{5,9}.
- Yn 2019, achosodd gordewdra amcangyfrif o 5 miliwn o farwolaethau NCD yn fyd-eang gan gynnwys o glefydau cardiofasgwlaidd, diabetes, canserau, anhwylderau niwrolegol, a chlefydau anadlol cronig⁹.
- Gall gordewdra a'i gymhlethdodau hefyd leihau ansawdd bywyd, gan gynnwys effeithio ar symudiad a chwsg ac achosi canlyniadau seicogymdeithasol⁴.

Plant

- Mae byw gyda gordewdra yn ystod plentyndod yn cynyddu'r risg y bydd amryw o NCDs yn dechrau'n gynnar gan gynnwys diabetes math 2 a chlefyd cardiofasgwlaidd⁴.
- Gall plant a phobl ifanc â gordewdra brofi bwllo a all fod yn gysylltiedig â hunan-barch isel ac iselder¹⁰.

Effeithiau cymdeithasol ac economaidd ehangach ac anghydraddoldebau

- Mae gordewdra hefyd yn cael effeithiau cymdeithasol ac economaidd ehangach y tu hwnt i iechyd, a rhagwelir y bydd y costau byd-eang yn cyrraedd US \$3 triliwn y flwyddyn erbyn 2030 a mwy na US \$18 triliwn erbyn 2060⁴.
- Yn y DU cost gymdeithasol flynyddol gordewdra yw o leiaf 1–2% o Cynnyrch Domestig Gros (GDP) o gostau gofal iechyd a chynhyrchiant coll⁷, ac mae ar hyn o bryd yn costio tua £7.3 biliwn y flwyddyn i'r GIG a £6.5 biliwn i ofal cymdeithasol¹¹.
- Mae gordewdra yn cynyddu anghydraddoldebau rhwng gwledydd ac o fewn poblogaethau, gyda menywod a dynion ag incwm is yn fwy tebygol o fod yn ordew⁸.

Gweithredu seiliedig ar ddatrysiadau

- Mae dealltwriaeth o'r ffactorau cymhleth sy'n cyfrannu at ordewdra wedi cynyddu dros y degawdau diwethaf, ac mae ymatebion cyfredol yn cydnabod rôl dylanwadau amgylcheddol - yr 'amgylchedd gordewdra', sy'n gyrru'r epidemig gordewdra^{12, 13}.
- Yn y fframwaith hwn, deallir gordewdra yng nghyd-destun amgylcheddau cymdeithasol-ddiwylliannol, ffisegol ac economaidd nad ydynt yn iach sy'n cyfyngu ar argaeledd bwyd iach ac yn ei gwneud yn anodd ei fod yn ddigon egniol yn gorfforol yn ystod bywyd bob dydd¹⁴.
- Mae atal a rheoli gordewdra yn gofyn am bolisiâu a chymau gweithredu aml-sector gan gynnwys camau strwythurol, cyllidol a rheoleiddiol sy'n sicrhau bod opsiynau bwyd a diod iachach a gweithgarwch corfforol ar gael, yn hygyrch ac yn ddymunol¹³.

Yr achos dros ysgogwyr cyllidol

- Mae tystiolaeth gyson bod pryniannau a chymeriant bwyd a diod yn ymwneud yn wrthdro â phris, gyda'r cymeriant o fwyd a diodydd yn gostwng wrth i'r pris gynyddu³.
- Mae Sefydliad Iechyd y Byd wedi galw am fabwysiadu polisiâu cyllidol i hyrwyddo diet iach, gan gynnwys trethi i annog pobl i beidio â bwyta bwydydd a diodydd llai iach, a chymorthdaliadau i gynyddu hygyrchedd bwydydd iachach¹ (gweler Ffigur 4).
- Er bod polisiâu cyllidol yn parhau i gael eu tanddefnyddio, bu momentwm sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf ac yn 2024:

- Mae **115 o wledydd** wedi gweithredu trethi diodydd wedi'u melysu â siwgr (SSB) ar lefel genedlaethol a thair ar lefel is-genedlaethol;
- Mae **41 o wledydd** wedi gweithredu trethi bwyd ar lefel genedlaethol;
- Hyd yn hyn mae llai o wledydd yn gweithredu polisiau i gynig cymhorthdal ar fwydydd/diodydd iachach³ (gweler Ffigurau 5 a 6).

Ffigur 4: Dogfennau allweddol WHO sy'n cynnig mesurau cyllidol i hybu iechyd


2004: Global Strategy on Diet, Physical Activity and Health
2012: Comprehensive Implementation Plan on Maternal, Infant and Young Child Nutrition
2013: Global Action Plan for the Prevention and Control of Noncommunicable Diseases 2013–2020, nawr wedi'i ymestyn i 2030
2013: Framework for Action to guide implementation of the commitments of the Rome Declaration on Nutrition
2016: Commission on Ending Childhood Obesity
2018: Political Declaration of the Third High-level Meeting of the General Assembly on the Prevention and Control of Non-communicable Diseases
2023: WHO Acceleration plan to stop obesity
2024: Fiscal policies to promote healthy diets: WHO guideline

Ffigur 5: Gwledydd â threthi ar fwydydd yn 2024 (Ffynhonnell: WHO³) (heb fod ar gael yn Gymraeg)



Note: "Missing data" means either there has been no action to implement food taxes or the status is unknown.¹

Ffigur 6: Gwledydd â threthi ar SSBs yn 2024 (Ffynhonnell: WHO³) (heb fod ar gael yn Gymraeg)



Note: "Missing data" means either there has been no action to implement food taxes or the status is unknown.'

Canllaw'r WHO ar bolisïau cyllidol i hybu diet iach

- Cyhoeddodd WHO ganllawiau yn 2024 i roi argymhellion yn seiliedig ar dystiolaeth i Aelod-wladwriaethau ar gyfer gweithredu polisïau cyllidol, yn seiliedig ar dri adolygiad systematig³¹⁵¹⁶.

Ffigur 7: Polisiâu cyllidol i hyrwyddo diet iach - argymhellion canllaw WHO³

- **Argymhelliad cryf ar drethu SSBs yn seiliedig ar:**
 - Tystiolaeth o effaith ddymunol fawr ar newid pris a phrynu diodydd wedi'u trethu
 - Costau dibwys gweithredu
 - Cost-effeithiolrwydd o blaid trethi
 - Ymarferoldeb gweithredu
 - Gwell tegwch iechyd yn ôl pob tebyg
- **Argymhelliad amodol ar drethu bwydydd:**
 - Sicrwydd isel o dystiolaeth o nifer gyfyngedig o werthusiadau polisi yn y byd go iawn a thystiolaeth o astudiaethau modelu y gall trethi bwyd gael effaith ddymunol fawr
 - Derbynioldeb, dichonoldeb, a chost-effeithiolrwydd tebygol
 - Potensial i gynyddu tegwch
- **Argymhelliad amodol ar gymorthdaliadau bwyd wedi'u targedu:**
 - Sicrwydd isel o dystiolaeth ar is-set o gymorthdaliadau bwyd wedi'u targedu (gyda'r dystiolaeth yn ymddangos fel pe bai'n dynodi effeithiau dymunol)
 - Derbynioldeb, dichonoldeb, a chost-effeithiolrwydd tebygol
 - Potensial i gynyddu tegwch

Mecanweithiau ysgogwyr cyllidol

- Mae polisiâu cyllidol i hybu diet iach yn cynnwys trethi a chymorthdaliadau.
- Mae cynllunio polisiâu cyllidol yn golygu ystyried amrywiol elfennau polisi gan gynnwys y mecanwaith treth/cymhorthdal, cynhyrchion sydd wedi'u cynnwys yn y dreth/cymhorthdal, y gyfradd dreth/cymhorthdal, a'r defnydd o'r refeniw¹.

Trethi

- Mae'r rhan fwyaf o'r dystiolaeth gyfredol ar effaith trethi ar gyfer SSBs, gyda mwyafrif yr astudiaethau ar drethi bwyd yn seiliedig ar fodol.
- Prin yw'r dystiolaeth ar hyn o bryd o oblygiadau iechyd trethi a weithredir, gyda'r rhan fwyaf o'r dystiolaeth ar gael ar ddangosyddion canolradd o effaith y dreth megis gostyngiadau mewn prynu a chymeriant¹.
- Mae astudiaethau modelu, er eu bod yn ddamcaniaethol, yn awgrymu effeithiau sylweddol trethi o ran lleihau gordewdra a chlefydau cysylltiedig¹.
- Mae'r rhan fwyaf o drethi a ddefnyddir i wella diet yn drethi anuniongyrchol/defnydd, gan gynnwys trethi dethol ac eang eu sail¹.

1. Trethi dethol

- O safbwynt iechyd y cyhoedd, mae trethi ecséis fel arfer yn well na threthi eang eu sail oherwydd:
 - Cânt eu cymhwyso i gynhyrchion penodol, gan leihau eu fforddiadwyedd o gymharu â chynhyrchion eraill, tra bod TAW a threthi gwerthu fel arfer yn berthnasol i ystod eang o nwyddau a gwasanaethau, ac nid ydynt yn effeithio ar bris cymharol y cynnyrch¹.
 - O'i gymharu â threthi gwerthu, mae'r pris uwch oherwydd treth ecséis yn fwy tebygol o fod yn weladwy i ddefnyddwyr yn y pris silff, a allai gynyddu'r tebygolrwydd o newid ymddygiad¹.
- Gall trethi ecséis fod yn ad quantum neu ad valorem:


1.1 Trethi ecséis ad quantum

- Trethi ecséis ad-quantum yw'r trethi iechyd mwyaf cyffredin a roddir ar fwyd a SSBs¹⁷ ac maent yn debygol o fod yn fwy effeithiol na threthi ecséis ad valorem oherwydd:
 - Maent yn cynyddu pris pob cynnyrch trethadwy yr un faint, gan leihau'r cymhelliant i ddefnyddwyr newid i opsiynau rhatach¹.
 - Maent yn darparu refeniw mwy sefydlog, nid ydynt yn destun newid prisiau gan y diwydiant a gallent fod yn haws eu gweinyddu¹⁸.
 - Fodd bynnag, mae angen eu haddasu'n rheolaidd yn unol â chwyddiant a thwf incwm i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn effeithiol¹.

Trethi Diodydd wedi'u Melysu â Siwgr (SSB).

- Mae tystiolaeth ryngwladol yn dangos bod trethi SSB yn effeithiol. Er enghraifft canfu adolygiad byd-eang diweddar o drethu SSB a weithredwyd fod y trethi yn gysylltiedig â phrisiau uwch a gwerthiant is o ddiodydd wedi'u trethu, heb unrhyw dystiolaeth o newid i ddiodydd heb eu trethu.¹⁹
- Trethi ecséis yw'r math o dreth a ddefnyddir fwyaf ar gyfer SSBs, gyda threthi ecséis penodol sy'n seiliedig ar gynnwys maethol (e.e. ar gynnwys siwgr) yn debygol o gael effaith fwy oherwydd eu bod yn annog defnyddwyr i newid i ddewisiadau eraill iachach heb eu trethu ac yn annog diwydiant i ailfformiwleiddio¹.
- Mae trethi SSB yn cynnwys cynlluniau haenog (ee yn y DU a Phortiwgal), a chynlluniau haen sengl (ee ym Mecsico, Denmarc, Ffrainc, y Ffindir, Hwngari). Gall trethi haenog yn hytrach nag unffurf annog defnyddwyr i amnewid bwydydd a diodydd sy'n cynnwys lefelau is o faetholion wedi'u targedu yn ogystal ag annog diwydiant i ailfformiwleiddio bwydydd a diodydd¹.
- Mae amrywiad mawr yn fyd-eang yn y cynhyrchion sy'n destun trethi SSB, gyda rhai trethi yn eithrio sudd ffrwythau 100% a diodydd sy'n seiliedig ar laeth o'r cynhyrchion trethadwy ac eraill yn seiliedig yn unig ar gynnwys siwgrau ychwanegol nid cynnwys heb siwgrau³:

Ffigur 8: Cynhyrchion sy'n cael eu trethu mewn trethi SSB lefel genedlaethol yn Aelod-wladwriaethau WHO (Ffynhonnell: WHO¹)
(Nid yw'r ffigur ar gael yn Gymraeg)



- Er enghraifft, nid yw **Ardoll Diwydiant Diodydd Meddal y DU** (gweler yr Atodiad, tudalen 23) yn cynnwys diodydd llaeth neu sy'n seiliedig ar laeth llawn siwgr, gyda galwadau i'r Llywodraeth gynnwys diodydd llaeth neu sy'n seiliedig ar laeth llawn siwgr yn yr ardoll⁷. At hynny, mae galwadau wedi'u gwneud i ymestyn yr ardoll i fwydydd sy'n uchel mewn braster, siwgr a halen (HFSS):

Ffigur 9: Treth Ailfformiwleiddio Siwgr a Halen Arfaethedig y DU^{20 21}

- Roedd y **Strategaeth Fwyd Genedlaethol** (2021) yn cynnig cyflwyno **£3/kg o dreth ar siwgr a £6/kg o dreth ar halen** a werthir i'w ddefnyddio mewn bwydydd sydd wedi'u prosesu, bwytai, a busnesau arlwyo.
- Mae gwaith modelu'n awgrymu y byddai'r dreth hon yn lleihau'r calorïau a fwyteir ar gyfartaledd fesul person y dydd o 15-38 kcal, sy'n ddigon i atal cynnydd pwysau yn gyfan gwbl ar lefel poblogaeth yn ôl grŵp arbenigol y DU ar leihau calorïau.
- Gallai'r dreth **godi £2.9-£3.9 biliwn y flwyddyn** ar gyfer y Trysorlys.
- Mae yna cynnig i ddefnyddio peth o'r refeniw ar ffrwythau a llysiau ffres ar gyfer teuluoedd incwm isel.
- Mae rhywfaint o dystiolaeth o **gefnogaeth y cyhoedd**, gydag arolwg diweddar y Sefydliad Iechyd (2024) yn canfod bod 59% o bobl yn y DU yn cefnogi treth ar fwydydd sy'n uchel mewn braster, siwgr a halen.

Trethi bwyd

- Mae tystiolaeth i gefnogi bod trethi bwyd yn llai cyson nag ar gyfer SSBs. Mae'n awgrymu bod trethi eang eu sail ar fwydydd HFSS sy'n cwmpasu amrywiaeth eang o eitemau bwyd nad ydynt yn iach yn tueddu i gael mwy o effaith o gymharu â threthi cul, gan y gallai trethiant ehangach annog peidio â dewis bwyd nad yw'n iach yn fwy effeithiol^{17 22}. Er enghraifft, mae **Treth Cynnyrch Iechyd y Cyhoedd Hwngari** yn dreth ecséis benodol a gymhwysir i amrywiaeth o gynhyrchion sy'n cynnwys llawer o siwgr, halen neu gaffein sydd wedi'i gysylltu â gostyngiad mewn cymeriant o – 3.4 % a gostyngiad mewn gwerthiant rhwng – 6% a 12% (gweler astudiaeth achos Hwngari, tudalen 17)^{17 23}.
- Ceir hefyd enghreifftiau o **wledydd yn diddymu trethi ecséis penodol** ar fwydydd yn dilyn heriau gyda'u gweithrediad, gan gynnwys **Denmarc a'r Ffindir**. Mae'r heriau hyn yn tynnu sylw at bwysigrwydd cynlluniau treth sy'n hawdd eu gweithredu, sy'n cael eu cefnogi'n dda ac yn seiliedig ar nodau iechyd y cyhoedd clir fel yn Hwngari lle mae refeniw o'r dreth yn cael ei ddyrannu i iechyd y cyhoedd¹⁷:

Ffigur 10: Astudiaeth achos - trethi ecséis penodol a ddiddymwyd ^{1,17,24}

<p>Denmarc</p> <ul style="list-style-type: none">• Yn 2011, cyflwynwyd treth ecséis benodol ar fwydydd sy'n cynnwys dros 2.3% o frasterau dirlawn.• Dangosodd astudiaethau ostyngiad ystadegol arwyddocaol ar gymeriant bwydydd wedi'u trethu rhwng – 4% a - 6% a bod y dreth wedi lleihau pryniannau'n sylweddol ($p < 0.05$) gan - 0.9%.• Fodd bynnag, diddymwyd y dreth ar ôl blwyddyn oherwydd cefnogaeth isel a heriau a brofwyd drwy ei gweithredu:<ul style="list-style-type: none">○ Daeth siopwyr o Ddenmarc o hyd i ffyrdd o osgoi'r dreth trwy brynu eitemau dros y ffin.○ Gwrthwynebwyd y dreth gan ffermwyr a chwmnïau bwyd fu'n cwyno ei bod yn fiwrocraidd gymhleth ac y gallai roi swyddi mewn perygl.○ Fe'i cyflwynwyd yn bennaf i gynyddu refeniw cyhoeddus yn hytrach na gwella iechyd y cyhoedd. <p>Y Ffindir</p> <ul style="list-style-type: none">• Yn 2011, cyflwynwyd treth ecséis benodol ar felysion a hufen iâ ond heb gynnwys cynhyrchion fel bisgedi, nwyddau pob, pwдинаu, a siwgr gronnynnog.• Diddymwyd y dreth ym mis Ionawr 2017 yn dilyn beirniadaeth gan gynhyrchwyr bwyd a ddadleuodd fod y dreth yn torri rheolau cymorth gwladwriaethol yr UE ar driniaeth deg a chyfartal trwy dargedu cynhyrchion penodol yn ddetholus.

1.2 Trethi ecséis ad valorem

- Mae llai o wledydd yn defnyddio trethi ecséis ad valorem ar fwyd a diodydd nad ydynt yn iach, ond mae enghreifftiau'n cynnwys gwledydd sydd â threthi mwy sefydledig fel Mecsico, a gwledydd sydd â threthi a weithredwyd yn ddiweddar fel Columbia.
- **Mae gan Mecsico**, gwlad sy'n arwain y ffordd o ran gweithredu trethi ar fwyd a diodydd nad ydynt yn iach, dreth ecséis genedlaethol ad valorem sefydledig ar **fwyd dwys o ran egni nad yw'n hanfodol**, sydd ar waith ers 2014 ac sydd wedi gweld gostyngiad o 18% yn y gwerthiant o fwydydd trethadwy mewn archfarchnadoedd a hyd at 40% mewn manwerthwyr eraill²⁴ (gweler astudiaeth achos Mecsico, tudalen 19).
- Er ei bod yn rhy fuan i wybod yr effeithiolrwydd, mae **Columbia wedi cyflwyno** treth ecséis ad valorem genedlaethol yn ddiweddar ar **fwydydd wedi'u prosesu'n helaeth** (UPFs) ochr yn ochr â threth haenog ar SSBs²⁵:

Ffigur 11: Astudiaeth achos - treth UPF sydd newydd ei chyflwyno^{25 26 27}

<p>Treth UPF Columbia</p> <ul style="list-style-type: none">• Ar ôl blynyddoedd o ymgyrchu, ym mis Tachwedd 2023 daeth Columbia yn un o'r gwledydd cyntaf yn y byd i weithredu treth ar UPFs.• Mae'r treth ecséis ad valorem genedlaethol ar gynhyrchion bwydadwy o sylweddau sy'n deillio o fwyd ynghyd ag ychwanegion (siwgrau, sodiwm, a brasterau dirlawn ychwanegol) sy'n rhagori ar drothwy:<ul style="list-style-type: none">○ ≥ 1 mg o sodiwm fesul 1 kcal a/neu ≥ 300 mg o sodiwm fesul 100 g○ $\geq 10\%$ o gyfanswm yr egni o siwgrau rhydd○ $\geq 10\%$ o gyfanswm yr egni o frasterau dirlawn• Bydd cyfraddau treth yn cynyddu o 10% yn 2023 i 20% yn 2025.• Mae cyfaddawdau wedi'u gwneud gyda'r cyhoedd a'r diwydiant bwyd, megis eithrio rhai bwydydd Colombiaidd traddodiadol fel selsig <i>salchichón</i> o'r dreth.• Mae'r polisi treth wedi'i alinio â labeli blaen pecyn – mae'n nhw hefyd yn cyflwyno rhybuddion iechyd gorfodol ar fwydydd sydd â chynnwys uchel o gynhwysion nad ydynt yn iach, fel siwgr neu fraster dirlawn, a chymhwysir y dreth ar yr un cynhyrchion sydd â'r label rhybudd iechyd i greu cymhelliant o ran gwybodaeth a chost i'r defnyddiwr osgoi'r cynhyrchion hyn.
--

2 Trethi eang eu sail

- Mae trethi eang eu sail yn cynnwys trethi gwerthu a TAW:

2.1 Trethi gwerthu

- Prin yw'r enghreifftiau o drethi gwerthu a roddir ar fwyd a diodydd di-alcohol, gyda'r rhan fwyaf yn UDA ar lefel is-genedlaethol ac astudiaethau cyfyngedig a ddarganfuwyd (gweler astudiaeth achos UDA, tudalen 20).
- Yn 2014, pasiodd Cenedl Navajo Ddeddf Cenedl Diné Iach, a gyfunodd dreth o 2% ar fwydydd â gwerth maeth isel iawn i ddim gan hepgor treth gwerthu o 5% ar fwydydd iach.²⁸ Canfu astudiaeth yn 2019 fod argaeledd llysiâu a ffrwythau ffres yn fwy mewn siopau cyfleustra yn Navejo yn dilyn gweithredu'r dreth o gymharu â siopau trefi ar y ffin yn dilyn gweithredu'r dreth²⁹.

2.2 Treth ar Werth (TAW)

- Mae gwahaniaethu cyfraddau TAW ar fwydydd a diodydd yn cael ei ystyried fwyfwy fel opsiwn ar gyfer cymell diet iach¹⁷ (gweler Ffigur 12).
- Yn y **DU**, mae'r rhan fwyaf o gategoriâu bwyd a diod wedi'u heithrio rhag TAW, ond nid yw llawer o opsiynau bwyd nad ydynt yn iach (gan gynnwys alcohol, melysion, creision, a phrydau cludfwyd) ac felly mae TAW yn gweithredu i godi prisiau ar y cynhyrchion hyn a hyrwyddo opsiynau iachach²:
 - Fodd bynnag, mae sawl eithriad ac anghysondeb yn y system sy'n cyfyngu ar effeithiolrwydd y dreth hon, er enghraifft: mae pob grawnfwyd brecwast wedi'i eithrio rhag TAW, hyd yn oed y rhai sydd â lefelau uchel o siwgr; mae fflapjacs a sglodion corn wedi'u heithrio rhag TAW, ond nid yw bariau grawn a chreision wedi'u heithrio; mae dŵr potel yn destun TAW².
 - Mae dull haenog o ymdrin â TAW wedi'i gynnig i fynd i'r afael â hyn, gyda'r cynhyrchion mwyaf nad ydynt yn iach yn destun cyfradd uwch y gellid wedyn ei ddefnyddio i sybsideiddio dewisiadau iachach fel ffrwythau a llysiâu³⁰.

Ffigur 12: Astudiaeth achos - cyfradd TAW yr UE ar ffrwythau a llysiâu^{31 32 33 34}

- Yn 2022, cytunodd yr UE i gynnig yr opsiwn i Aelod-wladwriaethau osod y **gyfradd TAW ar ffrwythau a llysiâu ar 0%**:
 - Ymhlith y gwledydd sydd wedi gostwng eu cyfraddau TAW ar ffrwythau a llysiâu mae Portiwgal, Iwerddon, yr Eidal, Cyprus, Sbaen a Latfia, er bod diffyg tystiolaeth ar effeithiolrwydd.
 - Mae rhai gwledydd hefyd wedi wynebu **heriau**, er enghraifft cynigiodd yr **Iseldiroedd** weithredu TAW o 0% ar ffrwythau a llysiâu, ond mae wedi'i ohirio oherwydd anghytundebau rhwng arbenigwyr cyllidol ac iechyd ac nid yw wedi'i weithredu eto.

Cymorthdaliadau

- Hyd yn hyn, ychydig o wledydd sydd wedi gweithredu polisïau i gynnig cymhorthdal ar fwydydd a diodydd iachach neu ddileu trethi fel ffordd o annog patrymau diet iachach.³⁵
- Gyda chymorthdaliadau'n cael eu defnyddio llai ar raddfa eang, mae'r sylfaen dystiolaeth ar eu heffeithiolrwydd yn llai, er yn addawol ²:
 - Canfu adolygiad systematig diweddar a gynhaliwyd gan WHO fod mwyafrif y cymorthdaliadau bwyd yn targedu ffrwythau a llysiâu, gyda'r rhan fwyaf o astudiaethau'n cael eu cynnal yn UDA lle mae'r **Rhaglen Cymorth Maeth Atodol** (SNAP) yn darparu cymorth prynu bwyd i bobl incwm isel¹⁶ (gweler astudiaeth achos

UDA, tudalen 20). Er bod sicrwydd y dystiolaeth yn isel iawn, dangosodd astudiaethau a oedd ar gael bod cymorthdaliadau ffrwythau a llysiâu i boblogaethau incwm isel yn gysylltiedig â chynnydd mewn gwerthiant cynhyrchion â chymhorthdal.

- Fodd bynnag, mae nifer fach o astudiaethau wedi canfod cynnydd cysylltiedig yng nghyfanswm y defnydd o ynni a stigma posibl i ddefnyddwyr incwm isel^{15 36}. Yn y DU, mae'r **Cynllun Cychwyn Iach** yn anelu at wella iechyd menywod beichiog ar incwm isel a theuluoedd â phlant ifanc sy'n derbyn budd-daliadau a chredydau treth trwy ddsbarthu talebau ar gyfer bwydydd iach fel ffrwythau, llysiâu, a llaeth buwch². Mae tystiolaeth yn awgrymu bod y cynllun yn effeithiol o ran cynyddu gwariant ar ffrwythau a llysiâu a gwella cynnwys maethol basgedi siopa cartrefi³⁷ gyda galwadau i gynyddu gwerth y taliadau ac ehangu eu cymhwysedd⁷ (gweler yr Atodiad, tudalen 22).

Cyfuno trethi gyda chymorthdaliadau

- Mae tystiolaeth gynyddol bod cyfuno trethi gyda chymorthdaliadau yn debygol o fod y dull mwyaf effeithiol¹.
- Er enghraifft, canfu adolygiad systematig diweddar (2024¹⁷) pan gyfunwyd trethi â chymorthdaliadau ar gyfer bwydydd iachach (fel bwydydd heb unrhyw siwgr neu halen ychwanegol, bwydydd sy'n isel mewn braster dirlawn, bwydydd grawn cyflawn, ffrwythau a llysiâu), bu cynnydd yn y nifer a oedd yn bwyta'r bwydydd â chymhorthdal a mwy o ostyngiad mewn cymeriant o eitemau trethadwy.

Ystyriaethau dylunio polisi cyllidol eraill

- Er mwyn bod yn effeithiol, rhaid i bolisïau cyllidol gael eu cynllunio a'u gweinyddu'n dda. Er y tu hwnt i gwmpas yr adroddiad hwn i'w trafod yn fanwl, mae amrywiaeth o ystyriaethau yn ogystal â'r math o dreth/cymhorthdal gan gynnwys y cynhyrchion sydd wedi'u cynnwys yn y dreth/cymhorthdal, y gyfradd treth/cymhorthdal, y defnydd o referniw ac effeithiau tegwch³:

Pa gynhyrchion i'w trethu/cymorthdal

- Mae'r meini prawf ar gyfer cynhyrchion iachach neu lai iach ar gyfer trethiant neu gymhorthdal yn bwysig ar gyfer canlyniadau, derbynioldeb, ac ymarferoldeb gweithredu.
- Er enghraifft, gall fod yn haws gweithredu trethi ar fwydydd sydd wedi'u diffinio'n syml fel SSBs na threthi sy'n targedu maetholion lluosog, yn enwedig mewn gwledydd sydd ag adnoddau isel¹.
- Gall proffil maetholion a modelau eraill helpu i ddiffinio cynhyrchion ar gyfer treth/cymhorthdal a gallent fod yn llai tebygol o gael canlyniadau anfwriadol na threthi sy'n seiliedig ar faetholion unigol gan eu bod yn llai tebygol o gynnwys bwydydd/diodydd iachach hefyd¹.
- Gall trethi sy'n targedu maetholyn unigol annog ailfformiwleiddio a chael effaith eang ond gallent fod yn feichus yn weinyddol i'w gweithredu oherwydd eu bod yn berthnasol i ystod eang o fwydydd³.
- Mae effaith trethi ar bryniannau a chymeriant yn cael ei dylanwadu gan argaeledd a chost amnewidion neu opsiynau amgen, felly mae'n bwysig sicrhau bod dewisiadau ac amnewidion iach ar gael, er enghraifft trwy gymorthdaliadau³.
- Mae'r sylfaen dystiolaeth bresennol yn awgrymu y gall polisïau cymhorthdal fod â baich gweinyddol uwch na pholisïau trethiant a bod angen adnoddau parhaus i'w gweithredu³.

Cyfradd treth/cymhorthdal

- Mae adolygiadau tystiolaeth rhyngwladol yn dangos bod cyfraddau treth a weithredir yn amrywio'n sylweddol o 1% i 25%¹⁷.
- Gall ymarferion modelu gwlad-benodol efelychu effaith bosibl treth/cymhorthdal ar brisiau, pryniannau, referniw treth a chanlyniadau iechyd³.

- Mae angen i'r gyfradd dreth/cymhorthdal fod yn ddigon uchel i atal cymeriant ac mae'r effaith ar iechyd y cyhoedd yn debygol o fod yn fwy pan fo'r gyfradd dreth yn uwch ar gyfer y cynnyrch³.
- Dylid addasu cyfradd treth trethi ecséis penodol yn rheolaidd yn unol â chwyddiant a thwf incwm, er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn effeithiol¹.

Ystyriaethau tegwch

- Mae angen pwyso a mesur adfywiad ariannol posibl trethi yn erbyn y manteision iechyd³. Er nad ydynt wedi'u hastudio'n ddigonol, mae'r rhan fwyaf o astudiaethau'n dangos bod grwpiau economaidd-gymdeithasol is wedi lleihau eu defnydd o gynhyrchion trethadwy yn fwy o gymharu â grwpiau economaidd-gymdeithasol eraill ac mae'r buddion iechyd yn debygol o fod yn gynyddol^{1 17}.
- Mae gan ymyriadau sy'n targedu grŵp economaidd-gymdeithasol is, megis cymorthdaliadau ar fwydydd iach, y potensial i leihau anghydraddoldebau iechyd¹.

Golwg ar Wlad

Rhoddir sylw i'r gwledydd canlynol gan eu bod yn darparu mewnwelediadau a dysgu o'u profiadau o roi gwahanol fathau o fesurau cyllidol ar waith i hybu diet iach:

1. Cyflwynodd **Hwngari** Dreth Cynnyrch Iechyd y Cyhoedd ecséis ad quantum yn 2011 sy'n cael ei chymhwyso ar fwydydd wedi'u pecynnu ymlaen llaw a diodydd sy'n cynnwys llawer o halen, siwgr a chaffein.
2. Cyflwynodd **Mecsico** becyn diwygio cyllidol yn 2013 a oedd yn cynnwys treth tollau ecséis ad valorem o 10% ar SSBs a threth o 8% ar fwydydd dwys o ran ynni nad ydynt yn hanfodol.
3. Mae'r **Unol Daleithiau** yn gweithredu trethi ecséis a gwerthiant ar lefel is-genedlaethol ar SSBs a bwyd cyflym/bwyd cyfleus ac mae ganddi Raglen Cymorth Maeth Atodol (SNAP) ffederal sy'n darparu addysg atodol bwyd a maeth i Americanwyr incwm isel.

Hwngari

Cefndir

